| Llinynnau | Elfennau | Dyma'r sgiliau rydym yn ymarfer gyda phlant blwyddyn Derbyn |
|---|---|---|
| **Datblygu ymresymu rhifyddol** | **Adnabod prosesau a chysylltiadau** | • trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth<br>• adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad<br>• dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio<br>• dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol<br>• dewis cyfarpar ac adnoddau priodol<br>• defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif |
| | **Cynrychioli a chyfathrebu** | • defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain<br>• cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd<br>• dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif |
| | **Adolygu** | • defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol<br>• dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol<br>• dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol |
| **Defnyddio sgiliau rhif** | **Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau** | • cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy<br>• darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 o leiaf<br>• cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 10 o leiaf |
| | **Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb** | |
| | **Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig** | • cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?'<br>• tynnu gwrthrychau i ffwrdd er mwyn canfod 'faint sydd ar ôl?' |
| | **Amcangyfrif a gwirio** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Rheoli arian** | • defnyddio darnau arian 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau |
| **Defnyddio sgiliau mesur** | **Hyd, pwysau/mas, cynhwysedd** | • defnyddio'r cymariaethau canlynol yn uniongyrchol:<br>– hyd, uchder a phellter, e.e. hirach/byrrach na<br>– pwysau/màs, e.e. trymach/ysgafnach na<br>– cynhwysedd, e.e. yn dal mwy/llai na |
| | **Amser** | • dangos dealltwriaeth cynyddol o ba mor hir y mae tasgau a gweithgareddau beunyddiol yn eu cymryd<br>• defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas â'u gweithgareddau bob dydd |
| | **Tymheredd** | • defnyddio cymariaethau uniongyrchol wrth ddisgrifio'r tymheredd, e.e. poeth/oer |
| | **Arwynebedd a chyfaint**<br>**Ongl a safle** | • symud i gyfeiriadau penodol |
| **Defnyddio sgiliau data** | **Casglu a chofnodi data**<br>**Cyflwyno a dadansoddi data**<br>**Dehongli canlyniadau** | • didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio un maen prawf<br>• cofnodi casgliadau drwy ddefnyddio marciau, rhifau neu luniau. |